

Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher - 11.03.20 - yn Y Ganolfan, Llwyngwril

Presennol: Huw Davies (Cadeirydd), Ian Williams, Dylan Thomas, Keith Carroll, Kevin Goodchild, Geraint Edwards, Geraint Micah, David Griffiths, Jenny Warne, Louise Hughes (Cynghorydd Sirol), Glenda Edwards (Clerc). Aelod o'r gymuned - Mr D Reynolds.

1. **Croeso'r Cadeirydd**: Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **Ymddiheuriadau**: John Griffiths.

3. **Cadarnhau'r Cofnodion Blaenorol**: Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 12.02.20 fel rhai cywir.
Cynnig – Ian Williams **Eilio** – Keith Carroll **Arwyddwyd** – Huw Davies.

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (12.02.20)**:

a) **Cyfarfod safle ar lwybr lan y môr ger Llwybr y Perthi - 18.02.20** - derbyn adroddiad gan Huw Davies ynglŷn â'r cyfarfod safle cadarnhaol a gafwyd ar y 18.02.20, gyda swyddogion o Gyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Gwynedd. Cytunodd Liz Haynes (Cyngor Gwynedd) gyfrannu tuag at y gwaith, yn amodol ar yr arolwg â'r cais, a gobeithio cael y gwaith wedi ei wneud ym mis Ebrill/Mai 2020.

b) **Archwiliad Mewnol – 31.03.20**: Gwasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd yn fodlon ymgymryd ar gwaith eto eleni felly anfon llythyr ymrwymiad/penodi iddynt.

c) **Derbyn Prisiau cynnal a chadw'r Llwybrau Cyhoeddus, Cof Golofn, Crynwyr a'r Cae Chwarae** – Prisiau wedi eu derbyn gan: Gyngor Gwynedd, David Griffiths a Geraint Micah.

Penderfyniad → cynnig y gwaith torri gwair y Cae Chwarae i Gyngor Gwynedd.

cynnig y gwaith torri gwair Llwybr y Perthi a Llwybr y Crynwyr i David Griffiths.

cynnig y gwaith torri gwair y Cof Golofn a Mynwent y Crynwyr i Geraint Micah.

Cynnig: Ian Williams **Eilio:** Geraint Edwards. Aelodau i gyd yn cytuno a'r penderfyniad yma.

❖ *David Griffiths a Geraint Micah wedi datgelu buddiant personol, ar lafar ac yn ysgrifenedig drwy lenwi ag arwyddo'r ffurflen, ac wedi gadael y cyfarfod gan eu bod yn fuddiant sy'n rhagfarnu, tra'r oedd yr aelodau yn trafod y prisiau a dewis pwyl i gynnig y gwaith i.*

5. **Gohebiaeth:**

a) **Y Ganolfan** – llythyr wedi ei dderbyn yn diolch am y rhodd o £1,000.00 gan y Cyngor Cymuned.

b) **Hosbis Dewi Sant, Llandudno** - cais am gyfraniad ariannol → gohirio penderfyniad tan y cyfarfod nesaf.

c) **Teenage Cancer Trust Cymru** - cais am gyfraniad ariannol → gohirio penderfyniad tan y cyfarfod nesaf.

d) **Grŵp Amgylcheddol Llwyngwril** - cais am gyfraniad ariannol, a diweddariad o'i gwaith yn y pentref hyd yma

Penderfyniad → pawb yn gytûn i gefnogi y cais yma, felly cytuno i roi £50.00 tuag at eu costau gweinyddol

Cynnig – Ian Williams **Eilio** – Keith Carroll.

e) **Newidiadau i Bolisi Gosod Tai** – gwybodaeth wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd.

f) **Llwybr ger Wendy's yn Llwyngwril** - cwyn wedi ei dderbyn gan aelod o'r gymuned fod rhwystrau wedi eu rhoi fynnu ar y Llwybr oedd yn cael ei ddefnyddio gan aelodau o'r gymuned i gerdded lawr i lan y môr ger "Wendy's".

Penderfyniad → cysylltu â Chyngor Gwynedd i ofyn am eu cyngor ar y sefyllfa. Egluro fod y Llwybr yma wedi bod yn cael ei ddefnyddio gan aelodau o'r gymuned ers blynnyddoedd lawer a gofyn os oedd modd gwneud rhywbeth i gadw'r Llwybr yma ar agor?

6. Materion Cynllunio:

- a) **NP5/69/113H – Llanfendigaid Hall, Rhoslefain:** Gosod 1 pod gweryll a 2 gwt bugail fel llety gwyliau
Penderfyniad → dim sylwadau/gwrthwynebiadau i'w cyflwyno i'r Parc Cenedlaethol Eryri.
- b) **NP5/69/118E - Bryn Eithin, Llwyngwril:** Adeiladu estyniad deulawr ar yr edrychiad blaen a gosod ffenestr ychwanegol ar y cefn
Penderfyniad → dim sylwadau/gwrthwynebiadau i'w cyflwyno i'r Parc Cenedlaethol Eryri.
- c) **NP5/69/403 – Prysgau Ganol, Llwyngwril:** Codi shed ar gyfer tank a phwmp dwr
Penderfyniad → dim sylwadau/gwrthwynebiadau i'w cyflwyno i'r Parc Cenedlaethol Eryri.
- d) **NP5/69/404 – Prysgau Uchaf, Llwyngwril:** Codi shed ar gyfer tank a phwmp dwr
Penderfyniad → dim sylwadau/gwrthwynebiadau i'w cyflwyno i'r Parc Cenedlaethol Eryri.

7. Adroddiad Ariannol: Derbyniwyd Adroddiad Mis Chwefror 2020 yn gywir.

Cynnig – Geraint Edwards **Eilio** – Ian Williams **Arwyddwyd** – Huw Davies.

- a) **BHIB** - Polisi Yswiriant y Cyngor Cymuned hefo BHIB wedi ei adolygu.
Penderfyniad → Pawb yn gytûn i'w adnewyddu (01.06.20).
- b) **Cofrestr Asedau'r Cyngor Cymuned** - adolygiad blynyddol wedi ei wneud.
- c) **Cofrestr Asesu Risg y Cyngor Cymuned** – adolygiad blynyddol wedi ei wneud.

8. Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr: Derbyn adroddiad gan Geraint Edwards o'r cyfarfod cyhoeddus a drefnwyd gan Cyngor Gwynedd, yn y Ganolfan yn Arthog, i drafod y cyfyngiadau cyflymder ar y ffordd rhwng Arthog a Llwyngwril.

9. Adroddiad y Cynghorydd Sirol: Derbyn adroddiad gan Louise Hughes.

10. Unrhyw Fater Arall:

- a) **Cae Chwarae Llwyngwril** - nodwyd fod geifr yn mynd i mewn i'r cae chwarae reit aml !
- b) **Rheolau Sefydlog y Cyngor Cymuned** - wedi ei mabwysiadu yn ffurfiol.
- c) **Rheolau Ariannol y Cyngor Cymuned** - wedi ei mabwysiadu yn ffurfiol.
- d) **Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol** – aelodau'r cyngor cymuned wedi ystyried pob dyfarniad yn adroddiad terfynol y panel – Chwefror 2020
Penderfyniad → aelodau i gyd yn gytûn i fabwysiadu dyfarniad Rhif 45 yn unig → costau teithio.
Aelodau i gyd wedi dewis "tynnu allan" o dderbyn lwfans o £150.00 ar gyfer y flwyddyn ariannol 31.03.2021, ac wedi rhoi rhybudd priodol i'r Clerc.

Arwyddwyd

Cadeirydd **Dyddiad**